Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# GWELLA TEITHIO LLESOL A MANNAU CYHOEDDUS SANDFIELDS

## RHESTR O DERMAU ELFENNAU DYLUNIO TEITHIO LLESOL

Edrychwch ar **Ganllawiau Deddf Teithio Llesol Cymru** i gael rhagor o wybodaeth am welliannau cerdded, olwyno a beicio

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch os gwelwch yn dda – activetravel@npt.gov.uk

| GWELLIANNAU I GROESFANNAU CERDDWYR/BEICWYR: | | |
|---|---|---|
| **1.** | **CROESFAN PÂL (GYDA GOLEUADAU)**<br>Mae croesfan pâl yn groesfan i gerddwyr gyda goleuadau traffig sy'n stopio cerbydau i adael i bobl groesi'n ddiogel. Mae'r goleuadau coch a gwyrdd ar y blwch drws nesaf i chi, felly gallwch ei weld yn hawdd pan fydd eich tro i groesi'n cyrraedd. Bydd synwyryddion yn canfod pan fydd rhywun yn aros neu'n croesi o hyd a bydd y goleuadau'n rhoi amser ychwanegol os oes angen, gan helpu i wneud y groesfan yn fwy diogel ac yn fwy cyfforddus i bawb. |  |
| **2.** | **CROESFAN TWCAN (GYDA GOLEUADAU)**<br>Mae croesfan twcan yn groesfan sy'n gadael i gerddwyr a beicwyr groesi'r ffordd yn ddiogel ar yr un pryd. Mae'r uned gwasgu botwm yn dangos symbolau coch a gwyrdd ar gyfer cerdded a beicio, felly mae'n dangos pryd mae'n ddiogel i groesi'n glir. Mae synwyryddion yn helpu i addasu'r amser croesi, gan roi amser ychwanegol os oes ei angen ar bobl a helpu pawb i groesi'n gyfforddus ac yn ddiogel. | <br> |
| **3.** | **CROESFAN GYFOCHROG**<br>Mae croesfan gyfochrog yn gweithredu fel croesfan sebra ond mae'n cynnwys **man croesi ar wahân i feicwyr** wrth ymyl yr ardal i gerddwyr. Mae pobl yn cerdded gan ddefnyddio'r streipiau ac mae beicwyr yn defnyddio eu lôn eu hunain wrth eu hymyl. Gall y ddau groesi'n ddiogel heb gymysgu, gan ei wneud yn gliriach ac yn fwy cyfforddus i bawb. | <br>Ffynhonnell: Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol |

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch os gwelwch yn dda – activetravel@npt.gov.uk

| GWELLIANNAU I GROESFANNAU CERDDWYR/BEICWYR: | | |
|---|---|---|
| 4. | **CYRBAU ISEL A PHALMANT CYFFYRDDOL WRTH GROESFAN ANFFURFIOL**<br><br>Mae arwynebau uchel y gellir eu teimlo o dan draed yn rhybuddio ac yn tywys pobl ddall neu rannol ddall. |  |

| GWELLIANNAU LLWYBRAU BEICIO: | | |
|---|---|---|
| 5. | **LÔN FEICIO UNFFORDD AR UCHDER HANNER FFORDD**<br><br>Mae lôn feicio unffordd ar uchder hanner ffordd yn ofod beicio pwrpasol sydd ychydig yn uwch na'r ffordd ond sy'n is na'r droedffordd o hyd. Mae'r gwahaniaeth uchder bach hwn yn helpu i wahanu beicwyr oddi wrth gerbydau a cherddwyr, gan greu llwybr mwy diogel a chyfforddus i bobl ar feiciau. Mae'r lefel uwch hefyd yn gwneud y lôn yn gliriach i holl ddefnyddwyr y ffordd, gan helpu i leihau gwrthdaro a gwella diogelwch. | <br><br>Ffynhonnell: Canllawiau’r Ddeddf Teithio Llesol |

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch os gwelwch yn dda – [activetravel@npt.gov.uk](mailto:activetravel@npt.gov.uk)

| GWELLIANNAU LLWYBRAU BEICIO: | | |
|---|---|---|
| **6.** | **LLWYBR CERDDED A BEICIO A RENNIR**<br><br>Mae llwybr defnydd a rennir yn llwybr sydd ar gael i'w ddefnyddio gan gerddwyr a beicwyr. Mae'n cynnig defnydd hyblyg sy'n gallu darparu ar gyfer gwahanol fathau o symud. |  |
| **7.** | **STRYD DAWEL**<br><br>Mae stryd dawel yn llwybr beicio trefol lle mae'r traffig yn symud yn araf/nad oes llawer o draffig ac mae dyluniad y ffordd yn ei gwneud yn addas ar gyfer beicwyr newydd a llai hyderus, heb yr angen am isadeiledd pwrpasol.<br><br>Gellir defnyddio symbolau beicio i arwyddo'r llwybr beicio a nodi'r lleoliad cywir ar gyfer beicio ar y ffordd gerbydau teitl - gwelliannau | <br>Ffynhonnell: Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol |

| MESURAU LLEIHAU TRAFFIG: | | |
|---|---|---|
| **8.** | **CROESFAN Â BWRDD WEDI'I GODI**<br><br>Mae ffordd wedi'i chodi'n dwmpath ffordd ag arwyneb gwastad. Mae'n pwysleisio presenoldeb cyffordd ac yn lleihau cyflymder cerbydau ar y ffordd i'r cyfleuster croesi. Mae hefyd yn ei gwneud yn haws ac yn fwy cyfforddus i gerddwyr groesi'r ffordd. |  |

Am ragor o wybodaeth, ebostiwch os gwelwch yn dda – activetravel@npt.gov.uk

| MESURAU LLEIHAU TRAFFIG: | | |
|---|---|---|
| **9.** | **CYFFORDD Â BWRDD WEDI'I GODI**<br>Mae cyffordd â bwrdd wedi'i godi'n gyffordd lle mae holl ardal y gyffordd wedi'i chodi i'r un lefel â'r palmant neu lwybr defnydd a rennir gerllaw. Mae hyn yn creu gofod mwy gwastad a gweladwy sy'n annog cerbydau i arafu wrth iddynt fynd heibio. Mae'n gwneud y groesfan yn gliriach ac yn fwy cyfforddus i bobl sy'n cerdded, olwyno a beicio, gan helpu pawb i symud yn fwy diogel o amgylch y gyffordd. |  |
| **10.** | **TWMPATH CYFLYMDER**<br>Mae twmpathau cyflymder yn fesur tawelu traffig a ddefnyddir i leihau cyflymder cerbydau modur i wella diogelwch cerddwyr a beicwyr. Maent hefyd yn gwella amodau byw i breswylwyr sy'n byw ar hyd llwybrau tawelu traffig. |  |